Cylchoedd yn Cerdded

7 – 14 Tachwedd 2020

Yn dilyn sgil-effeithiau pandemig Covid-19 mae'r angen am godi arian ychwanegol i'r Cylchoedd a'r meithrinfeydd dydd yn fwy nag erioed, yn enwedig o gofio na fu modd cynnal gweithgareddau codi arian oherwydd y rheolau ymbellhau cymdeithasol sydd mewn grym.

Roedd hi'n anodd meddwl am weithgaredd codi arian a fyddai'n addas o dan yr amgylchiadau heriol yma eleni OND mae'r ymgyrch **Cylchoedd yn Cerdded** yn cynnig gweithgaredd codi arian syml, effeithiol a diogel.

Bwriad ymgyrch **Cylchoedd yn Cerdded** yw eich bod yn trefnu teithiau cerdded noddedig syml i'r plant yn y cylchoedd (a'u teuluoedd os bydd amodau'r pandemig yn caniatáu). Yn ogystal â chodi arian i'r Cylch/meithrinfa bydd hyn yn ffordd o hyrwyddo addysg Gymraeg mewn ffordd hwyliog a gwneud i bawb fydd yn cymryd rhan deimlo fel 'un teulu mawr' Mudiad Meithrin.

Gallwch gynnal ymgyrch Cylchoedd yn Cerdded yn llwyddiannus mewn sawl ffordd e.e.

- y plant i wneud taith gerdded noddedig yn ystod amser cylch – a chael teulu a ffrindiau i'w noddi
- cefnogaeth y gymuned leol – beth am fapio llwybr i aelodau'r gymuned ddewis ei gwneud a chyfrannu arian i'r cylch?
- annog teuluoedd gwahanol i ddewis eu taith eu hunain – gallant ddewis cerdded mewn cylch o gwmpas parc lleol os nad oes teithiau lleol addas ar gael
- gofyn i gyfeillion y Cylch neu selebs lleol i wneud sialens taith gerdded a rhoi arian i'r cylch
- gofyn i rieni gyfrannu arian mân i'r cylch a cheisio creu llinell o arian mân o gwmpas y cylch (cofiwch ddilyn callawiau hylendid priodol cyn trafod yr arian e.e. rhieni i'w gyflwyno mewn bagiau a'i roi mewn twbyn arbennig a'i adael yno am sawl diwrnod cyn ei gyffwrdd – yna gall y plant sortio'r arian yn ôl maint, lliw a gwerth a helpu i greu llinell). Y cylch i gadw'r arian i'w coffrau ar y diwedd.

Byddwn yn anfon pecyn adnoddau atoch fydd yn cynnwys taflen weithgareddau ar y thema, sticeri, posteri blanc i hyrwyddo eich digwyddiad, taflenni casglu nawdd a manylion sut i gasglu arian yn electroneg e.e. trwy justgiving.

Ewch amdani!

www.meithrin.cymru/cylchoeddyncerdded

@mudiadmeithrin /MudiadMeithrin /MudiadMeithrin

Rhif elusen: 1022320

Cylchoedd yn Cerdded

'Cylchoedd yn Cerdded'

(Cylchoedd Walking)

7 – 14 November 2020

Following the side effects of the Covid-19 pandemic, the need to raise additional funds for the Cylchoedd and day nurseries is greater than ever, especially given that some fundraising activities will not be possible due to the social distancing rules that are in force.

It was difficult to think of a fundraising activity that would be appropriate during these challenging circumstances this year BUT the '**Cylchoedd yn Cerdded**' campaign offers a simple, effective, and safe fundraising activity.

The aim of the '**Cylchoedd yn Cerdded**' campaign is to organise simple sponsored walks for the children in the Cylchoedd (and their families if the pandemic conditions allow). As well as raising money for the Cylch / nursery, this will be a fun way of promoting Welsh-medium education and getting everyone who is involved to feel they are part of Mudiad Meithrin's 'one big family'.

There are many ways in which you can successfully hold the 'Cylchoedd yn Cerdded' campaign e.g.

- hold a sponsored walk for the children to take part in during Cylch time - and get family and friends to sponsor
- local community support - why not map out a path for members of the community to take part in and donate money to support the Cylch?
- encourage different families to choose their own route - they can choose to walk around a local park if there aren't any suitable local walks
- ask friends of the Cylch or local celebrities to take part in a sponsored walk challenge and donate money to the Cylch
- ask parents to donate any spare change in coins to the Cylch and try to create a line of coins around the Cylch (make sure you take hygiene into consideration before handling the money e.g. parents to bag it and put it in a special tub and leave it there for several days before touching it - then after it's been disinfected, the children can sort the money by size, colour and value, and then help create a line). The Cylch will be able keep the money in their fund at the end.

We will send you a resource pack which will include a themed activity sheet, stickers, blank posters to promote your event, sponsorship leaflets and details of how to raise money electronically e.g. by using justgiving.

Go for it!

www.meithrin.cymru/cylchoeddyncerdded-eng

@mudiadmeithrin /MudiadMeithrin /MudiadMeithrin

Rhif elusen: 1022320